Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i aelwydydd â biliau ynni a thlodi tanwydd

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026



Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**

# Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**ymchwil.senedd.cymru**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

X: **@SeneddYmchwil**
Ymchwil y Senedd: **ymchwil.senedd.cymru**
Tanysgrifiwch: **Cylchlythyr**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2026**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Ymchwil y Senedd**

# Cymorth i aelwydydd â biliau ynni a thlodi tanwydd

## Canllaw i etholwyr

Gorffennaf 2026

**Awdur:**
**Gareth Thomas, Claire Thomas a Francesca Howorth**

Mae'r canllaw hwn yn cyfeirio at ffynonellau cymorth i aelwydydd sy'n wynebu heriau o ran biliau ynni a/neu dlodi tanwydd. Mae'n cynnwys gwybodaeth am grantiau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a chymorth ehangach; cymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni a dŵr; cynlluniau effeithlonrwydd ynni; a ffynonellau eraill o gyngor a chymorth.

Mae Ymchwil y Senedd yn darparu cymorth ymchwil diduedd i Aelodau o'r Senedd. Ni allwn ohebu yn uniongyrchol ag unigolion neu sefydliadau eraill, na rhoi cyngor na sylwadau ar achosion unigol.

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn at ddibenion gwybodaeth gyffredinol yn unig i gefnogi gwaith Aelodau o'r Senedd. Ni fwriedir iddo gymryd lle deddfwriaeth, canllawiau, polisi na chyngor proffesiynol.

Cael gwybod mwy:
**ymchwil.senedd.cymru**



# Cynnwys

**1. Taliadau a thalebau i helpu aelwydydd ..................................... 6**

Cymorth gan Lywodraeth y DU ..................................... 6

Taliad Tanwydd Gaeaf ..................................... 6

Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes ..................................... 7

Taliadau Tywydd Oer ..................................... 7

Cymorth Llywodraeth Cymru ..................................... 8

Y Gronfa Cymorth Dewisol ..................................... 8

Cymorth i aelwydydd oddi ar y grid ..................................... 8

Y Sefydliad Banc Tanwydd ..................................... 9

**2. Cymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni a dŵr ..................................... 10**

Cyflenwyr nwy a thrydan ..................................... 10

British Gas ..................................... 10

EDF Energy ..................................... 11

E.ON Next ..................................... 11

Good Energy ..................................... 11

Octopus ..................................... 12

OVO ..................................... 12

Scottish Power ..................................... 12

Utilita ..................................... 13

Utility Warehouse ..................................... 13

Dŵr ..................................... 13

Dŵr Cymru ..................................... 13

Hafren Dyfrdwy ..................................... 14

**3. Cymorth i arbed ynni yn y tymor hwy ..................................... 16**

Cymorth gan Lywodraeth Cymru ..................................... 16

Nyth ..................................... 16

Cartrefi Gwyrdd Cymru ..................................... 16

Cymorth gan Lywodraeth y DU ..................................... 17

Cynllun Uwchraddio Boeleri ..................................... 17

ECO4 ac Eco Flex ..................................... 18

**4. Ffynonellau cyngor a chymorth ........ 19**

Cyngor cyffredinol a manteisio i'r eithaf ar incwm ........ 19

Llywodraeth Cymru ........ 19

Age Cymru ........ 19

Cyfrifianellau Budd-daliadau ........ 19

Cyngor ar Bopeth ........ 20

Money Helper ........ 20

Y Llinell Ddyled Genedlaethol ........ 21

StepChange ........ 21

Cyngor ynghylch ynni ........ 21

Power Up Wales ........ 21

Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni ........ 22

National Energy Action ........ 22

Cymru Gynnes ........ 22

Gofal a Thrwsio Cymru ........ 23

Cyngor ynghylch dŵr ........ 23

Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr ........ 23

# 1. Taliadau a thalebau i helpu aelwydydd

## Cymorth gan Lywodraeth y DU

### Taliad Tanwydd Gaeaf

Mae'r **Taliad Tanwydd Gaeaf** yn cynnig naill ai £200 neu £300 i aelwydydd cymwys i'w helpu i dalu eu biliau gwresogi ar gyfer gaeaf 2026 i 2027. I fod yn gymwys, rhaid i unigolyn fyw yng Nghymru neu Loegr, cael incwm unigol o £35,000 neu lai, a bod wedi'i eni cyn 28 Mehefin 1960. Os yw incwm blynyddol unigolyn dros £35,000, yna **bydd Cyllid a Thollau EF yn cymryd ei Daliad Tanwydd Gaeaf yn ôl** drwy newid ei god treth neu ychwanegu'r swm at eu ffurflen dreth Hunanasesu.

Os ganwyd o leiaf un aelod o'r aelwyd cyn 28 Medi 1946, y swm y mae'r aelwyd yn ei gael fydd £300. Fel arall, bydd yr aelwyd yn cael £200. Os yw partneriaid yn hawlio budd-daliadau ar y cyd, gall un ohonynt gael y taliad tanwydd gaeaf os yw un neu'r ddau ohonynt yn bodloni'r gofyniad oedran.

Dylai'r rhan fwyaf o bobl sy'n gymwys gael llythyr ym mis Hydref neu Dachwedd 2026 gyda manylion y taliad, a dylai'r rhan fwyaf o daliadau gael eu gwneud yn awtomatig ym mis Tachwedd neu fis Rhagfyr. Os yw rhywun yn gymwys ond nad yw'n derbyn Pensiwn y Wladwriaeth neu **un o'r budd-daliadau penodol**, bydd angen iddo wneud cais am y taliad os nad yw wedi'i dderbyn o'r blaen, neu os yw wedi gohirio ei Bensiwn y Wladwriaeth ers derbyn ei Daliad Tanwydd Gaeaf ddiwethaf. Gall person wneud cais am Daliad Tanwydd Gaeaf **drwy'r post**, drwy gyflwyno **ffurflen ymholiad e-bost**, neu drwy ffonio'r Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf ar **0800 731 0160**.

Os nad yw unigolyn yn cael llythyr neu os nad yw'r arian wedi'i dalu erbyn 27 Ionawr 2027, argymhellir cysylltu â'r **Ganolfan Taliadau Tanwydd Gaeaf.**

**Ffôn**: 0800 731 0160

**E-bost: Ffurflen ymholiad**

## Y Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes

Mae'r **Cynllun Gostyngiad Cartrefi Cynnes** yn ostyngiad unwaith ac am byth o £150 oddi ar fil trydan unigolyn. Mae'r cynllun ar gau ar hyn o bryd, ond bydd yn ailagor ym mis Hydref 2026. Ar gyfer y cyfnod gwneud cais blaenorol, roedd unigolyn yn gymwys i gael y gostyngiad os oedd pob un o'r canlynol yn berthnasol ar 24 Awst 2025:

- Mae **cyflenwr ynni** yr unigolyn yn rhan o'r cynllun
- Mae enw'r unigolyn (neu enw ei bartner) ar y bil trydan
- Mae'r unigolyn neu ei bartner naill ai'n cael yr elfen Credyd Gwarant o Gredyd Pensiwn neu **ar incwm isel**

Os yw unigolyn yn byw mewn cartref mewn parc, rhaid iddo wneud cais yn lle hynny am y **Gostyngiad Cartrefi Cynnes mewn Parciau.**

Os yw unigolyn yn gymwys ar gyfer y cynllun neu os gall fod yn gymwys, bydd yn derbyn llythyr. Os yw unigolyn yn gymwys, dylai ei gyflenwr trydan dynnu'r gostyngiad yn awtomatig oddi ar ei fil.

**Ffôn**: 0800 030 9322

## Taliadau Tywydd Oer

Mae unigolyn cymwys yn cael **Taliad Tywydd Oer** os yw'r tymheredd cyfartalog yn ei ardal yn cael ei gofnodi fel sero gradd Celsius, neu y rhagwelir ei fod yn sero gradd Celsius, neu'n is dros saith niwrnod yn olynol. Ar gyfer y gaeaf diwethaf, roedd yr unigolyn cymwys yn cael £25 am bob cyfnod o saith niwrnod o dywydd oer iawn rhwng 1 Tachwedd 2025 a 31 Mawrth 2026.

Gall unigolyn fod yn gymwys i gael y taliad os yw'n **cael budd-dal penodol**, ac yn bodloni'r meini prawf i gael taliad. Dylai unigolion cymwys gael eu talu'n awtomatig. Ar ôl pob cyfnod o dywydd oer, dylai'r unigolyn gael taliad o fewn 14 o ddiwrnodau gwaith.

Os nad yw unigolyn cymwys yn cael ei Daliad Tywydd Oer, fe'i cynghorir i ddweud wrth y **Gwasanaeth Pensiwn** neu'r **Ganolfan Byd Gwaith**. Os yw'n cael Credyd Cynhwysol, gall **mewngofnodi i'w gyfrif** ac ychwanegu nodyn at ei ddyddlyfr.

## Cymorth Llywodraeth Cymru

### Y Gronfa Cymorth Dewisol

Mae'r **Gronfa Cymorth Dewisol** yn darparu dau fath o grant nad oes angen ei dalu'n ôl. Mae'r Taliad Cymorth mewn Argyfwng yn helpu rhywun i dalu am gostau hanfodol fel nwy a thrydan. I gael y grant, rhaid i unigolyn:

- fod mewn caledi ariannol eithafol, er enghraifft ei fod wedi colli ei swydd, wedi gwneud cais am fudd-daliadau ac yn aros am ei daliad cyntaf neu heb arian i brynu bwyd, nwy a thrydan;
- bod mewn sefyllfa o argyfwng a bod angen cymorth ariannol arno ar unwaith;
- byw yng Nghymru;
- bod dros 16 oed; a
- bod heb unrhyw arian arall er enghraifft cynilion, ac ystyried yr holl fenthycwyr cyfreithiol a chyfrifol eraill megis undebau credyd.

I wneud cais am y Taliad Cymorth mewn Argyfwng, gall unigolyn **wneud cais ar-lein drwy'r post neu dros y ffôn**.

Mae'n cymryd 24 awr i brosesu ceisiadau am y Taliad Cymorth mewn Argyfwng. Os caiff cais unigolyn ei gymeradwyo, bydd yn cael taleb PayPoint neu daliad BACS ar gyfer bwyd, nwy, trydan a theithio brys.

Mae Taliad Cymorth Unigol hefyd ar gael drwy'r gronfa, sy'n helpu pobl i fyw'n annibynnol drwy ddarparu oergelloedd, poptai a dodrefn cartref.

**Ffôn**: 0800 859 5924

**E-bost:** **daf.feedback@necsws.com**

### Cymorth i aelwydydd oddi ar y grid

O fis Ebrill i fis Medi 2026 bydd pobl sydd ar incwm isel sy'n defnyddio olew gwresogi neu nwy petrolewm hylif (LPG) yn gymwys i gael **taliad untro o £200** os ydynt ar Gynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Bydd awdurdodau lleol yn cysylltu ag aelwydydd cymwys yn uniongyrchol ac yn eu gwahodd i wneud cais.

Gall y rhai sydd mewn caledi ariannol difrifol nad ydynt yn gymwys wneud cais i'r **Gronfa Cymorth Dewisol** (gweler uchod). Mewn ymateb i brisiau olew cynyddol, mae uchafswm dyfarniad y Gronfa Cymorth Dewisol ar gyfer olew gwresogi wedi'i gynyddu o £500 i £750, a gall pobl bellach wneud cais hyd at ddwywaith mewn cyfnod o 12 mis.

## Y Sefydliad Banc Tanwydd

Elusen yw'r **Sefydliad Banc Tanwydd** sy'n darparu cymorth mewn argyfwng i bobl na allant fforddio talu am eu tanwydd neu eu hynni. Fe'i hariennir gan Lywodraeth Cymru i ddarparu cynllun Talebau Tanwydd a Chronfa Gwres ledled Cymru. Gall aelwydydd sydd â mesurydd nwy neu drydan rhagdalu wedi'i osod gael eu hatgyfeirio gan **rwydwaith partneriaid y Sefydliad Banc Tanwydd** ar gyfer taleb tanwydd argyfwng os nad oes credyd ar ôl ganddynt os yw'n debygol na fydd credyd ganddynt ac na allant fforddio ychwanegu ato. Gall aelwydydd oddi ar y grid gael cymorth gyda darpariaeth olew neu nwy.

# 2. Cymorth a ddarperir gan gyflenwyr ynni a dŵr

## Cyflenwyr nwy a thrydan

O dan reolau'r rheoleiddiwr Ofgem, rhaid i gyflenwyr ynni weithio gyda chwsmeriaid i gytuno ar gynllun talu fforddiadwy os ydynt yn poeni am dalu biliau ynni.

Mae cyflenwyr ynni yn argymell bod cwsmeriaid yn cysylltu â nhw os ydynt yn poeni am eu gallu i dalu eu bil ynni. Mae cyflenwyr yn gallu cynnig gwahanol fathau o gymorth gan gynnwys grantiau, cyngor ynghylch gwneud yn fawr o'ch incwm, a darparu offer sy'n defnyddio ynni'n effeithlon.

Mae manylion y grantiau sydd ar gael i helpu aelwydydd wedi'u nodi isod, ac mae Energy UK, y corff sy'n cynrychioli cyflenwyr ynni hefyd wedi cyhoeddi canllaw i'r cymorth sydd ar gael gan gyflenwyr unigol. Dim ond yn ystod misoedd y gaeaf y mae rhai mathau o gymorth ar gael gan gyflenwyr, ac felly byddwn yn diweddaru'r canllaw hwn pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael am hyn.

### British Gas

Elusen ynni annibynnol yw **Ymddiriedolaeth Ynni British Gas** a ariennir gan British Gas ac a all helpu pobl sy'n cael trafferth gyda'u biliau ynni, p'un a ydynt yn gwsmeriaid British Gas neu'n gyflenwr arall nad oes ganddo ei gynllun cymorth ei hun. Mae'n darparu grantiau ynni am ddim i gwsmeriaid mesuryddion rhagdalu cymwys sydd â rhwng £50 a £1,700 o ddyled ynni i'w chlirio drwy'r **Gronfa Unigolion a Theuluoedd**. Cyn gwneud cais am grant, rhaid i unigolyn gael cyngor ariannol. Mae'r ymddiriedolaeth hefyd yn ariannu **canolfannau galw heibio a chynghorwyr ledled y DU**, ac yn cynnig arian personol a chyngor ynni mewn Swyddfeydd Post.

Mae British Gas hefyd wedi nodi sut y gall helpu cwsmeriaid i reoli eu taliadau biliau.

**Ffôn**: 0330 808 3880 (cwsmeriaid credyd) neu 0330 100 0303 (cwsmeriaid mesuryddion rhagdalu)

**Tudalen gyswllt ar-lein: https://www.britishgas.co.uk/help-and-support/contact-us**

### EDF Energy

Mae gan EDF Energy **Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid** sy'n helpu cwsmeriaid agored i niwed gyda biliau ynni a nwyddau gwyn fel oergelloedd a phoptai. Rhaid i gwsmeriaid fod wedi gofyn am gymorth gan ddarparwr cyngor ariannol annibynnol cyn gwneud cais. Mae EDF Energy hefyd yn gweithio gydag IncomeMax gyda'r nod o **helpu cwsmeriaid incwm isel i gynyddu eu hincwm i'r eithaf**, ac yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Plymouth i ddarparu cyngor ariannol annibynnol i gwsmeriaid.

**Ffôn**: 0333 006 99 50

**Tudalen gyswllt ar-lein:** **https://www.edfenergy.com/help-support**

**E-bost:** **hello@edfenergy.com**

### E.ON Next

Mae **Cronfa Ynni E.ON Next** yn helpu cwsmeriaid sy'n cael trafferth gyda'u biliau ynni i dalu dyledion ynni ac yn darparu offer arbed ynni fel poptai, oergelloedd a pheiriannau golchi i roi modelau newydd yn lle'r hen rai neu rai sydd wedi torri. Gall **cwsmeriaid Sainsbury's Energy** hefyd fod yn gymwys ar gyfer y gronfa hon gan ei bod wedi ffurfio partneriaeth ag E.ON Next.

Mae E.ON Next hefyd yn defnyddio Paylink, sef offeryn cyllidebu ar-lein, i helpu cwsmeriaid i ddeall a chymryd rheolaeth o'u cyllid, a'r Llinell Ddyled Genedlaethol i gynnig cyngor am ddim ar ddyled.

**Ffôn**: 0808 501 5200

**Tudalen gyswllt ar-lein:** **https://www.eonnext.com/contact**

**E-bost:** **hi@eonnext.com**

### Good Energy

Mae Good Energy yn **darparu rhyddhad rhannol o ddyled i rai cwsmeriaid**, ac mae'n dweud ei fod yn eu cefnogi i symud ymlaen i fargeinion rhatach. Mae hefyd yn cyfeirio cwsmeriaid at ffynonellau cyngor annibynnol fel Cyngor ar Bopeth, Turn2Us a StepChange.

**Ffôn**: 0800 254 0022

**E-bost:** hello@goodenergy.co.uk

### Octopus

Mae Octopus yn darparu ystod o gymorth i'w gwsmeriaid trwy ei **Gronfa Cymorth Octo**, y gellir ei chyrchu ar ôl i gwsmer weithio gyda Paylink i rannu gwybodaeth am ei sefyllfa ariannol. Mae'r cymorth sydd ar gael yn cynnwys grantiau i wrthbwyso rhywfaint o fil ynni cwsmer a hepgoriad ar gyfer taliadau sefydlog dros y gaeaf. Mae Octopus hefyd yn darparu blancedi trydan am ddim i'r rhai y mae'n ystyried sydd eu hangen fwyaf, a chymorth cyfrif personol fel gohirio taliadau neu sefydlu cynllun talu.

**Ffôn**: 0808 164 1088

**Tudalen gyswllt ar-lein:** https://octopus.energy/contact-us/

**E-bost:** hello@octopus.energy

### OVO

Mae OVO yn **darparu cymorth ychwanegol i'w gwsmeriaid** gan gynnwys cymorth ariannol uniongyrchol tuag at filiau ynni neu i dalu am ddyled ynni sy'n bodoli eisoes. Mae hefyd yn cynnig cymorth talu fel gostyngiadau debyd uniongyrchol, ychwanegiadau credyd mewn argyfwng, a chynlluniau ad-dalu. Mae OVO hefyd yn darparu cymorth arbed ynni fel pecynnau effeithlonrwydd ynni cartref am ddim a blancedi wedi'u gwresogi.

**Ffôn:** 0330 303 5063 (cwsmeriaid sy'n talu'n fisol) neu 0330 175 9669 (cwsmeriaid sy'n talu wrth fynd)

**Tudalen gyswllt ar-lein:**
https://www.ovoenergy.com/help#contact_us_container

**E-bost:** hello@ovoenergy.com

### Scottish Power

Mae **Cronfa Caledi Scottish Power** yn cefnogi cwsmeriaid cymwys ar incwm isel sy'n cael trafferth talu eu biliau ynni, a gall cwsmeriaid gael mynediad at y gronfa ar ôl cysylltu ag asiantaeth gyngor ar ddyledion gydnabyddedig fel Step Change. Mae'r gronfa yn clirio neu'n lleihau ôl-ddyledion cwsmer drwy gredydu

eu cyfrif ynni. Mae Scottish Power hefyd yn cyfeirio cwsmeriaid at ffynonellau annibynnol o gymorth a chyngor.

**Ffôn**: 0345 270 0700

**Tudalen gyswllt ar-lein:** https://www.scottishpower.co.uk/livechat

**E-bost:** contactus@scottishpower.com

### Utilita

Mae Utilita yn cyfeirio cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau at sefydliadau annibynnol fel National Debtline, Cyngor ar Bopeth, a StepChange. Gall cwsmeriaid rhagdalu, sy'n rhan o'r mwyafrif helaeth o gwsmeriaid Utilita, wneud cais am POWER UP o hyd at £25 o gredyd nwy a thrydan o dan y rhan fwyaf o amgylchiadau pan fydd ganddynt gredyd ar ôl, a'i dalu'n ôl yn ddiweddarach.

**Ffôn**: 0345 207 2000

**Tudalen gyswllt ar-lein:** https://utilita.co.uk/help

### Utility Warehouse

Mae Utility Warehouse yn gweithredu Cronfa Galedi UW, sy'n darparu cymorth ariannol i gwsmeriaid sy'n cael trafferth gyda'u biliau ynni, a'r Gronfa Cymorth Rhagdalu i ddarparu credyd i gwsmeriaid rhagdalu sy'n cael trafferth gyda'u biliau. Mae hefyd yn gweithio gyda Chyngor ar Bopeth Plymouth i gynnig gwahanol fathau o gymorth arall i gwsmeriaid, gan gynnwys cyngor ar gynllunio cyllidebau, cyngor ar ddyledion, cyngor ar ynni a chynyddu incwm.

**Ffôn**: 0333 777 0777

**Tudalen gyswllt ar-lein:** https://uw.co.uk/help/contact-us

## Dŵr

### Dŵr Cymru

Mae Dŵr Cymru Welsh Water yn gweithredu cynllun Cymorth Dyledion y Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid sy'n helpu cwsmeriaid mewn caledi ariannol difrifol i reoli eu dyledion a'u clirio. Mae'r cynllun yn cynnwys dyledion o fwy na £150 sydd o leiaf chwe mis yn hwyr, a rhaid i gwsmeriaid sefydlu cynllun talu i

dalu eu biliau parhaus. Unwaith y bydd cwsmer wedi talu ei fil dŵr am chwe mis, mae Dŵr Cymru Welsh Water yn talu 50 y cant o'i ôl-ddyledion blaenorol, ac mae'n talu'r gweddill unwaith y bydd y cwsmer wedi bod yn talu ei fil am chwe mis arall. Cynllun untro yw hwn, ac ni ellir ei gynnig os bydd aelwyd yn mynd i ddyled eto.

Mae Dŵr Cymru Welsh Water hefyd yn gweithredu tariffau cymdeithasol **HelpU** a **WaterSure** Cymru ar gyfer aelwydydd incwm isel. Mae'r rhain yn gosod cap ar filiau dŵr aelwyd incwm isel, a gall cwsmeriaid wneud cais ar-lein am y rhain. Mae hefyd yn gweithredu cynlluniau talu, ac yn caniatáu i gwsmeriaid sy'n cael budd-daliadau i **dalu costau dŵr a dyled drwy eu budd-daliadau**.

Ar gyfer aelwydydd sy'n gweithio sy'n cael trafferth talu eu biliau, mae'r **cynllun Cymuned** yn darparu cyfnod 'di-dâl' o dri mis i aelwydydd cymwys, sy'n cyfateb i ostyngiad o oddeutu £150-£200 yn seiliedig ar fil cyfartalog. Rhaid i gwsmeriaid gwblhau asesiad incwm a gwariant gydag asiantaeth cyngor ar ddyledion, awdurdod lleol neu gymdeithas dai cyn derbyn y cymorth hwn.

**Ffôn**: 0800 052 0145

**Tudalen gyswllt ar-lein:** **https://contact.dwrcymru.com/cy-gb**

### Hafren Dyfrdwy

Mae Hafren Dyfrdwy yn gweithredu'r cynllun **Here2Help**, sy'n rhoi gostyngiad o rhwng 30 y cant a 70 y cant i gwsmeriaid incwm isel ar eu bil dŵr. Mae hefyd yn gweithredu'r **cynllun cap biliau WaterSure**, sydd ar gael i aelwydydd incwm isel ar fudd-daliadau penodedig.

Mae Hafren Dyfrdwy hefyd yn gweithredu'r **cynllun Cymorth Dyled – Paru a Mwy**, sydd ar gael i gwsmeriaid sydd wedi cael ôl-ddyledion ar eu cyfrif am o leiaf blwyddyn, ac sydd heb dalu mwy na £60 tuag at falans eu cyfrif dros y flwyddyn ddiwethaf. O dan y cynllun, os yw aelwyd yn talu o leiaf £20 oddi ar ei ôl-ddyledion bob mis, bydd Hafren Dyfrdwy yn gwneud taliad misol o £20 i helpu i leihau balans ei ôl-ddyledion.

Mae Hafren Dyfrdwy hefyd yn gweithredu cynlluniau talu, ac yn caniatáu i gwsmeriaid sy'n cael budd-daliadau **dalu costau dŵr a dyled drwy eu budd-daliadau.**

**Ffôn**: 0330 678 0679

**Tudalen gyswllt ar-lein: https://www.hdcymru.co.uk/help-and-contact/contact-us/**

# 3. Cymorth i arbed ynni yn y tymor hwy

## Cymorth gan Lywodraeth Cymru

### Nyth

Mae **cynllun Nyth** Llywodraeth Cymru (a elwir hefyd yn Rhaglen Cartrefi Clyd) yn cynnig cyngor ar arbed ynni ac, os ydych yn gymwys, cymorth i osod gwelliannau arbed ynni mewn aelwydydd ledled Cymru. Mae'r cynllun yn rhoi cyngor am ddim i:

- sicrhau bod aelwydydd ar y tariff ynni a dŵr gorau;
- gwirio a oes hawl i unrhyw fudd-daliadau;
- helpu i leihau ôl troed carbon yr aelwyd; a
- gosod technoleg carbon isel gartref.

Gall aelwydydd fod yn gymwys i gael gwelliannau arbed ynni cartref gan gynnwys inswleiddio, pwmp gwres neu baneli solar. Efallai y bydd atgyweirio neu amnewid boeleri ar gael hefyd os nad yw'r gwres neu'r dŵr poeth yn gweithio yn yr aelwyd. Gellir dod o hyd i feini prawf cymhwysedd ar **wefan Nyth**.

**Ffôn**: Rhadffôn 0800 808 2244 (dydd Llun i ddydd Gwener rhwng 9am a 6pm)

**Gwefan: https://www.llyw.cymru/cael-cymorth-gydag-effeithlonrwydd-ynni-yn-eich-cartref-gan-nyth**

### Cartrefi Gwyrdd Cymru

Menter gan Lywodraeth Cymru yw **Cartrefi Gwyrdd Cymru**, sy'n cael ei rheoli gan Fanc Datblygu Cymru. Fe'i cynlluniwyd i helpu perchnogion tai cymwys i wneud gwelliannau sy'n arbed ynni i'w cartrefi. Mae'r Cynllun yn cynnig cyllid di-log a chymorth arbenigol wedi'i hariannu'n llawn, gyda'r nod o helpu deiliaid tai i arbed arian ar filiau ynni a lleihau allyriadau carbon. Mae'r cynllun yn cynnwys:

- Canllawiau arbenigol: mynediad wedi'i ariannu'n llawn at Gydlynydd Ôl-osod i greu asesiad manwl o'r cartref gan ddarparu argymhellion o

ran effeithlonrwydd ynni a datgarboneiddio wedi'u teilwra i amgylchiadau unigol.

- Cyllid hyblyg: benthyciadau di-log yn amrywio o £1,000 i £25,000 gyda thelerau ad-dalu hyd at 10 mlynedd. Ar gyfer prosiectau mwy, gellir estyn y telerau. Mae yna hefyd yr opsiwn o wyliau ad-dalu chwe mis ymlaen llaw tra bod eich mesurau effeithlonrwydd ynni newydd yn dechrau sicrhau canlyniadau.

- Cyllid grant: mynediad at gyllid grant ochr yn ochr â benthyciadau ar gyfer mesurau effeithlonrwydd ynni penodol.

Bydd pob cais yn amodol ar wiriadau fforddiadwyedd a sgôr credyd.

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yng **nghanllawiau'r Banc Datblygu**.

**Gwefan:** **https://developmentbank.wales/cy/cartrefi-gwyrdd-cymru**

**E-bost:** **info@greenhomes.wales**

## Cymorth gan Lywodraeth y DU

### Cynllun Uwchraddio Boeleri

Mae **Cynllun Uwchraddio Boeleri** Llywodraeth y DU yn darparu grantiau i dalu rhan o gost amnewid systemau gwresogi tanwydd ffosil gyda boeler biomas neu bwmp gwres. Mae un grant ar gael ar gyfer pob eiddo. Ar hyn o bryd mae grantiau ar gael ar gyfer:

- £7,500 tuag at bwmp sy'n codi gwres o'r aer (wedi'i gynyddu i £9,000 ar gyfer eiddo sy'n dibynnu ar olew gwresogi neu nwy petrolewm hylif);

- £7,500 tuag at bwmp sy'n codi gwres o'r ddaear, gan gynnwys pympiau sy'n codi gwres o'r dŵr a'r rhai ar ddolenni tir a rennir (wedi'i gynyddu i £9,000 ar gyfer eiddo sy'n dibynnu ar olew gwresogi neu nwy petrolewm hylif); a

- £5,000 tuag at foeler biomas.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y Cynllun Uwchraddio Boeleri, rhaid i'r ymgeisydd:

- fod yn berchen ar yr eiddo y mae'n gwneud cais ar ei gyfer (gan gynnwys os yw'n fusnes, yn ail gartref, neu'n eiddo sy'n cael ei rentu gan denantiaid); a
- bod yn disodli systemau gwresogi tanwydd ffosil - fel olew, nwy, trydan neu nwy petrolewm hylif.

Efallai y bydd aelwydydd sydd eisoes wedi derbyn cyllid i wneud yr eiddo yn fwy effeithlon o ran ynni, er enghraifft trwy inswleiddio, yn dal i fod yn gymwys.

**Gwefan:** **https://www.gov.uk/apply-boiler-upgrade-scheme**

**E-bost:** **BUS.enquiry@ofgem.gov.uk**

**Ffôn:** 0330 053 2006 (Dydd Llun, Dydd Mawrth, Dydd Iau, 9:30am i 4:30pm, Dydd Mercher, 9:30am i 12:30pm, a Dydd Gwener, 9:30am i 4pm).

## ECO4 ac Eco Flex

Mae **ECO4 yn gynllun gan Lywodraeth y DU** i helpu i leihau allyriadau carbon a threchu tlodi tanwydd. Trefnir i'r cynllun ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2026.

O dan ECO4, mae'r cyflenwyr ynni mwy a chanolig eu maint yn ariannu gwaith gosod mesurau effeithlonrwydd ynni fel inswleiddio llofftydd, insiwleiddio waliau a mesurau gwresogi. Nod ECO4 yw cefnogi aelwydydd incwm isel, agored i niwed ac sy'n wynebu tlodi tanwydd.

Nid yw cymorth ECO4 yn mynd i aelwyd yn uniongyrchol ar ffurf taliad. Mae'n cael ei ariannu drwy **gyflenwyr ynni** rhwymedig sy'n cysylltu â meddianwyr, landlordiaid a gosodwyr er mwyn nodi a gweithredu mesurau effeithlonrwydd ynni addas. Gall etholwyr **gysylltu â chyflenwyr rhwymedig yn uniongyrchol** i gael gafael ar gyllid ECO4 – nid oes rhaid mai'r cwmni sy'n cyflenwi ynni iddynt sy'n cysylltu â'r cyflenwyr, ond mae rhai cwmnïau ond yn cynnig cymorth i'w cwsmeriaid eu hunain.

Mae awdurdodau lleol hefyd yn gallu nodi a chyfeirio aelwydydd incwm isel a/neu aelwydydd agored i niwed na fyddent yn gymwys o dan y meini prawf ar gyfer y prif gynllun, ond a all elwa o welliannau arbed ynni. Gelwir y cynllun hwn yn **ECO flex**. Dylai awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan gyhoeddi **Datganiad o Fwriad** ar eu gwefannau yn amlinellu eu bwriad i gymryd rhan yn y cynllun. Bydd angen i etholwyr chwilio am hyn ar wefan eu hawdurdod lleol.

# 4. Ffynonellau cyngor a chymorth

## Cyngor cyffredinol a manteisio i'r eithaf ar incwm

### Llywodraeth Cymru

Mae gan Lywodraeth Cymru ymgyrch ar hyn o bryd, sef **Hawliwch yr hyn sy'n ddyledus i chi,** i helpu'r rhai sy'n ansicr ynghylch pa fudd-daliadau y gallant eu hawlio, er mwyn cael mynediad at yr hyn y maent yn gymwys i'w gael.

Mae Llywodraeth Cymru yn ariannu **Cyngor ar Bopeth Cymru a nifer o bartneriaid** i reoli llinell gymorth **Advicelink Cymru**. Gallant ddarparu cymorth i wneud cais am fudd-daliadau lles, fel Taliad Annibyniaeth Personol, Lwfans Gofalwyr a Chredyd Pensiwn, ac i gael cymorth gan Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn darparu ystod ehangach o gymorth o ran dyled, cyflogaeth, addysg, tai, mewnfudo a gwahaniaethu.

**Ffôn**: 0800 702 2020

**Gwefan**: https://advicelinkcymru.org.uk/cy/

### Age Cymru

Mae **Age Cymru** yn elusen sy'n darparu cyngor a gwybodaeth am ystod o faterion sy'n berthnasol i bobl hŷn, gan gynnwys budd-daliadau a hawlogaeth, cyngor pensiynau a chostau byw.

**Ffôn**: 0300 303 44 98

**E-bost: advice@agecymru.org.uk**

**Tudalen gyswllt ar-lein: https://www.agecymru.wales/contact-us/**

**Gwefan: www.ageuk.org.uk/cymru**

### Cyfrifianellau Budd-daliadau

Mae yna nifer o gyfrifianellau budd-daliadau annibynnol, am ddim a dienw i bobl wirio'r hyn y gallai fod ganddynt hawl iddo. Bydd y cyfrifianellau hyn yn rhoi amcangyfrif i chi o'r canlynol:

- y budd-daliadau y gallech eu cael;

- faint y gallai eich taliadau budd-dal fod;
- sut effaith fydd ar eich budd-daliadau os byddwch yn dechrau gweithio neu'n cynyddu eich oriau; a
- sut effaith fydd ar eich budd-daliadau os bydd eich amgylchiadau'n newid - er enghraifft, os oes gennych blentyn neu os byddwch yn symud i mewn gyda'ch partner.

I gael gwybodaeth am fudd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm, budd-daliadau sy'n seiliedig ar gyfraniadau, Credyd Cynhwysol, Taliadau Annibyniaeth Personol, credydau treth, Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Lwfans Gofalwr, defnyddiwch:

- **Cyfrifiannell budd-daliadau Turn2us**
- **Cyfrifiannell Better Off Policy in Practice**
- **Cyfrifiannell budd-daliadau entitled to**

## Cyngor ar Bopeth

Yn ogystal ag Advicelink Cymru, mae canghennau Cyngor ar Bopeth ledled Cymru a all gefnogi pobl mewn perthynas â dyled ac arian, budd-daliadau, biliau ynni, ac amrywiaeth o bynciau eraill. Gall pobl weld manylion cyswllt eu cangen leol **ar wefan Cyngor ar Bopeth**.

Mae Cyngor ar Bopeth hefyd yn darparu cyngor ar-lein ar **sut i arbed ynni gartref**, ar **arian, dyled a chostau byw**, ac ar **fudd-daliadau**.

Gwefan: **https://www.citizensadvice.org.uk/wales/about-us/contact-us/nearby/**

## Money Helper

Darperir **Money Helper** gan Wasanaeth Arian a Phensiynau Llywodraeth y DU, ac mae'n darparu gwybodaeth ar-lein am amrywiaeth o bynciau sy'n gysylltiedig â chyllid personol, megis budd-daliadau, problemau ariannol, pensiynau, teulu a gofal.

Gall pobl **gysylltu â Money Helper** drwy ei swyddogaeth ar-lein 'siaradwch â ni yn fyw', i drafod materion fel pensiynau, dyled a phynciau eraill o ganllawiau ariannol.

**Ffôn:** 0800 138 1677, mae llinell ffôn Gymraeg hefyd ar 0800 138 0555

**Tudalen gyswllt ar-lein:** **https://www.moneyhelper.org.uk/en/contact-us**

**Gwefan:** **https://www.moneyhelper.org.uk/cy**

### Y Llinell Ddyled Genedlaethol

Mae'r **Llinell Ddyled Genedlaethol** yn elusen sy'n darparu cyngor annibynnol a chymorth diduedd am ddim ynghylch dyled. Yn ogystal â llinell gymorth a gwasanaeth sgwrsio ar-lein, mae'n darparu gwahanol fathau o gymorth ar-lein ar faterion fel **costau byw a biliau ynni** a **mynd i'r afael â dyledion**.

**Ffôn**: 0808 808 4000

**Tudalen gyswllt ar-lein:** **https://nationaldebtline.org/get-help/webchat/**

### StepChange

Mae **StepChange** yn elusen sy'n darparu cyngor annibynnol ynghylch dyled a chymorth personol diduedd am ddim ar-lein. Mae StepChange yn darparu cymorth mewn perthynas â gwahanol fathau o ddyledion ac atebion dyled posibl. Hefyd, mae'n cynnig **offeryn cyngor ar ddyledion ar-lein** y gall pobl ei ddefnyddio i gael cyngor ar ddyledion os byddai'n well ganddynt beidio â siarad â rhywun.

**Ffôn**: 0800 138 1111

**Tudalen gyswllt ar-lein: https://www.stepchange.org/contact-us.aspx**

**E-bost:** **https://www.stepchange.org/send-us-an-email.aspx**

## Cyngor ynghylch ynni

Yn ogystal â chyflenwyr ynni, mae nifer o sefydliadau annibynnol a all ddarparu cyngor a chymorth am ddim mewn perthynas ag ynni.

### Power Up Wales

Mae'r Grid Cenedlaethol yn darparu **Hybiau cyngor Power Up** ar draws y rhanbarthau y mae'n gweithredu ynddynt i gefnogi cwsmeriaid agored i niwed a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn darparu'r gwasanaeth Power Up ar draws de a chanolbarth Cymru ac yn rhoi cyngor i gwsmeriaid ar gofrestr gwasanaethau blaenoriaeth y Grid Cenedlaethol dros y ffôn a thrwy ymweliadau cartref.

**Ffôn:** 0808 808 2274

**Gwefan:** https://energysavingtrust.org.uk/programme/national-grid-power-up/

### Yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni

Mae'r Ymddiriedolaeth Arbed Ynni yn cynnig cyngor ar ystod eang o faterion ynni, gan gynnwys arbed arian ar filiau ynni, lleihau allyriadau carbon y cartref, a theithio cynaliadwy.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar **wefan yr Ymddiriedolaeth Arbed Ynni**

**Ffôn:** 0808 808 2244

**Gwefan:** https://energysavingtrust.org.uk/about-us/contact-us

### National Energy Action

**National Energy Action** yw'r elusen tlodi tanwydd genedlaethol, sy'n gweithio i sicrhau bod pawb yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn gynnes ac yn ddiogel gartref. Mae'n cynnig cyngor a chymorth, gan gynnwys ar gartrefi cynnes a diogel, a chymorth costau byw.

**Ffôn:** 08003047159

**Gwefan:** https://www.nea.org.uk/get-help/

### Cymru Gynnes

Mae **Cymru Gynnes** yn gweithio i fynd i'r afael â thlodi tanwydd drwy gynnig cyngor a chymorth am ddim gyda'i nod o sicrhau bod gan bobl ledled Cymru (a De-orllewin Lloegr) gartrefi cynnes a diogel.

Mae ganddo dîm o gynghorwyr ynni a gweithwyr cymunedol sydd wedi'u hyfforddi i helpu i ddarparu cyngor, atgyfeiriadau a mynediad at grantiau fel **grantiau cysylltiad nwy** gyda'r nod o sicrhau nad oes neb yn byw mewn cartrefi anniogel ac oer.

Ceir rhagor o wybodaeth ar **wefan Cymru Gynnes**..

**Ffôn:** 0800 091 1786

**Ffurflen gyswllt ar-lein:** **https://www.warmwales.org.uk/contact/**

### Gofal a Thrwsio Cymru

Mae Gofal a Thrwsio yn elusen addasiadau tai sy'n helpu pobl hŷn yng Nghymru i fyw'n annibynnol gartref. Gall helpu i drwsio boeleri a systemau gwres canolog, atal drafftiau, inswleiddio, rhoi cyngor ar filiau, arbed ynni a mwy.

Mae manylion cyswllt ar gyfer gwasanaeth Gofal a Thrwsio lleol ar gael yma **https://careandrepair.org.uk/cy/get-help/**

**Gwefan:** **https://careandrepair.org.uk/**

## Cyngor ynghylch dŵr

### Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr

Y **Cyngor Defnyddwyr Dŵr** yw'r llais annibynnol ar gyfer defnyddwyr dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'n rhoi cyngor i aelwydydd mewn perthynas â materion fel **cymorth gyda biliau dŵr**, **cymorth ychwanegol am ddim i gwsmeriaid agored i niwed**, a **pherfformiad cwmni dŵr**, yn ogystal â **chynghori ar gwynion defnyddwyr am gwmnïau dŵr a helpu i'w datrys**.

**Ffôn**: 0300 034 3333

**Ffurflen gyswllt ar-lein:** **https://www.ccw.org.uk/contact-us/online-form/**